

# IECHYD, GOFAL A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR

Un o'r sectorau cyflogi mwyaf yn y DU, mae'r diwydiant hwn yn ddelfrydol i chi os ydych yn mwynhau gweithio gyda phobl o bob oedran a gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. O ysbytai a meithrinfeydd i'r gadair ddeintyddol, mae sawl llwybr i'w ddilyn!

Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaoedd y gallech chi eu dilyn:

## Gweithwyr Iechyd Proffesiynol

Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn amrywio o feddygon, therapyddion galwedigaethol a therapyddion llafar ac iaith, i seicolegwyr. Mae angen i chi fod yn amyneddgar a mwynhau gweithio gyda'r cyhoedd; gallwch arbenigo mewn maes penodol.

## Gofal Plant

Os ydych wedi'ch buddsoddi i helpu plant i dyfu'n emosiynol, corfforol a chymdeithasol, yna mae gofal plant yn ddelfrydol i chi. Mae'r swyddi'n amrywio'n eang ac yn cynnwys athrawon, cynorthwyr addysgu a rheolwyr meithrinfeydd.

## Deintyddol

Mae deintyddion, nyrsys deintyddol, hylenywyr deintyddol, thechnegwyr a therapyddion yn ein helpu ni i gadw'n dannedd gwynion yn lân ac yn iach. Gallwch ddringo'r ysgol a rheoli eich practis deintyddol eich hun hyd yn oed!

## Gwyddor Gofal Iechyd

Mae gwyddonwyr gofal iechyd yn ganolog i atal cyflyrau meddygol, rhoi diagnosis ohonynt a'u trin. Delfrydol ar gyfer y rheiny sy'n hoffi datrys problemau ac sy'n wybodys

am yr ymchwil ddiweddaraf. Mae'r swyddi yn cynnwys fferyllwyr, gwyddonwyr biofeddygol a chynorthwyr labordai.

## Nyrsio a Bydwreigiaeth

Mae nyrsys yn cynorthwyo meddygon ac ymgynghorwyr drwy wneud i gleifion deimlo'n dawel eu meddwl a diogel, gan fabwysiadu modd gofalgwr. Neu beth am hyfforddi fel bydwraig a helpu i ddod â bywyd newydd i'r byd? Swyddi gwerth chweil a boddhaus i'r rheiny sy'n hoffi helpu ac sy'n dosturiol.

## Gofal Cymdeithasol

Byddwch yn cefnogi cleifion o bob cefndir gyda'i anghenion unigol. Mae hyn yn cynnwys gofalu am bobl sydd ag anableddau, yr henoed neu'r rheiny sydd dan anfantais gymdeithasol.

## Dolenni Defnyddiol

[www.skillsforhealth.org.uk](http://www.skillsforhealth.org.uk)

Cyngor Sgiliau'r Sector dros Iechyd

[www.skillsforcare.org.uk](http://www.skillsforcare.org.uk)

Cyngor Sgiliau'r Sector dros Iechyd

[www.stepintothenhhs.nhs.uk/useful-links](http://www.stepintothenhhs.nhs.uk/useful-links)

Gwefannau gofal iechyd defnyddiol



GALLAI YMGYNGHORYDD GOFAL IECHYD ENNILL CYMAINT Â **£100,000** Y FLWYDDYN!

CYFANSWM Y SWYDDI YN Y DIWYDIANT HWN

**3.4 MILIWN** LEDLED Y DU



(ffynhonnell EMSI 2021)

MAE'R GYRFAOEDD SY'N CINYDDU CYFLYMAF YN Y MAES HWN YN CYNWYS OTEGWYR, FFERYLLWYR A PHARAFEDDYGON.



## Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

	Lefel	BG	C	DC	T
Gwyddorau Iechyd Colegau Gyrfa	3				✓
Gofal, Chwarae, Dysg a Datblygiad Plant	2	✓	✓	✓	✓
Gofal, Chwarae, Dysg a Datblygiad Plant*	3	✓	✓	✓	✓
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	2	✓	✓	✓	✓
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	3	✓	✓	✓	✓
Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion	2			✓	
Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion	3			✓	
Astudiaethau Galwedigaethol - Gofal Plant ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1	✓	✓	✓	✓

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk) | [Helo@coleggwent.ac.uk](mailto:Helo@coleggwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys / DC - Campws Dinas Casnewydd / T - Parth Dysgu Torfaen

